

CYDRADDOLDEB





Yn Ysgol y Wern, credwn fod gan bawb yr hawl i
deimlo'n ddiogel, cael eu gwerthfawrogi a theimlo
eu bod yn perthyn. Rydym yn hyrwyddo
cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy ein
gwerthoedd a thrwy ein cwricwlwm.



EIN GWERTHOEDD A CHYDRADDOLDEB




Cymreictod

Rydym yn dathlu ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd i ddatblygu ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu hunaniaeth.



Parch

Rydym yn trin pawb â charedigrwydd, urddas a pharch, gan werthfawrogi gwahaniaethau a safbwyntiau eraill.



Tegwch

Rydym yn gweithio i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i lwyddo, gan gydnabod nad yw tegwch bob amser yn golygu trin pawb yn union yr un fath.



Cydweithio

Rydym yn annog dysgwyr, staff, rhieni a'r gymuned i gydweithio er mwyn creu amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.

Hapusrwydd



Rydym yn meithrin ysgol lle mae lles, perthnasoedd cadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn yn galluogi pawb i ffynnu.

OUR VALUES AND EQUALITY

Welshness

We celebrate our language, culture and heritage, ensuring that everyone has opportunities to develop a sense of belonging and pride in their identity.

Respect

We treat everyone with kindness, dignity and respect, valuing differences and the perspectives of others.

Fairness

We work to ensure that every learner receives the support and opportunities they need to succeed, recognising that fairness does not always mean treating everyone exactly the same.

Collaboration

We encourage learners, staff, parents and the wider community to work together to create an inclusive environment where everyone feels that they belong.

Happiness


We foster a school where wellbeing, positive relationships and a strong sense of belonging enable everyone to thrive.



LLAIS Y DYSGWYR

Trwy ein pwyllgorau amrywiol, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu polisiau, gweithdrefnau a blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed a'u bod yn chwarae rhan weithredol wrth greu ysgol sy'n deg, yn gynhwysol ac yn groesawgar i bawb.

Through our numerous committees, learners are given opportunities to contribute to the development of school policies, procedures and priorities. This ensures that their views are heard and that they play an active role in creating a fair, inclusive and welcoming school for everyone.



Taith Ddysgu Gweithgor Gwrth-hiliaeth

Arddangosfeydd	I'w weld?	Tystiolaeth a Syniadau
Ydŷr arddangosfeydd yn dathlu amrywiaeth?/ Ydyn ni'n dathlu crefyddau a diwylliannau gwahanol?		
Oes arddangosfeydd sydd yn herio hiliaeth?		
Oes cynrychiolaeth o leithoedd eraill o gwmpas yr ysgol?		
Ydi gwerthoedd y dosbarth / ysgol yn dangos ein bod yn herio hiliaeth?		

tudalen 1

Datganiad gan y Gweithgor Gwrth-hiliaeth

Yn Ysgol y Wern rydyn ni'n credu bod pawb yn bwysig ac yn gydradd. Credwn fod gan bawb yr hawl i lais a barn ac rydyn ni'n dathlu hunaniaeth, diwylliant pob unigolyn i gael eu parchu a'u trin yn deg. Rydyn ni'n ysgol groesawgar a chynhwysol sy'n meithrin dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodys yng Nghymru a'r byd.

Fel Gweithgor Gwrth-hiliaeth fe fyddwn yn sicrhau fod dysgwyr yn magu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned leol a'u gwlad ac ar yr un pryd yn dysgu gwerthfawrogi a pharchu diwylliannau a thraddodiadau eraill, gan ddangos empathi a thegwch.

Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwrth hiliol ac i hyrwyddo

'Dim Goddefgarwch tuag at Hiliaeth'.



Datganiad Gwrth-Hiliol Ysgol y Wern, gyda chyfraniad y Gweithgor Gwrth-Hiliol.
Anti-racist Statement, created with a group of children

Parch Ysgol Y Wern Tegwch

Polisi Ffrindiau

Rydym ni yn un teulu mawr yn yr ysgol ac mae ffrindiau yn werth y byd.

Erthygl 12: Eich hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch

Erthygl 19: Eich hawl i beidio gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel

Erthygl 31: Eich hawl i ymlacio a chwarae

Erthygl 37: Eich hawl i gael eich trin yn deg

Sut i ddangos caredigrwydd a bod yn ffrind da?

- ★ Trin eraill fel yr hoffech gael eich trin.
- ★ Parchwch eraill.
- ★ Peidiwch â gadael eich ffrindiau i lawr.
- ★ Chwaraewch yn hapus a rhannwch.
- ★ Dweudwch rwy'n fflin pan mae angen.
- ★ Gwneud yn siŵr eich bod yn cynnwys pawb
- ★ Helpwch eraill.
- ★ Meddylwch cyn dweud rhywbeth.
- ★ Helpwch unrhyw un sydd yn ddigalon.
- ★ Peidiwch â brolio a dangos eich hun.

Cydweithio

Rydym yn addo:

- edrych allan am ein ffrindiau
- i fod yn ffrind i bawb
- creu naws lle nad oes gwrthdaro
- gwneud yn siŵr fod pawb yn cael eu cynnwys
- galw'r bwl allan
- defnyddio ein pŵer er gwell
- gwneud yn siŵr fod teulu'r Wern yn hapus o hyd


Cymreictod Hapusrwydd



Pwyllgor Lles yn ymweld â Chanolfan Oasis
Wellbeing Committee visiting Oasis Centre for Refugees



Dylunio a gwnio Cwilt Croeso i ddathlu cynhwysiant
Designing and sewing Welcome Quilts to celebrate inclusion



Logo Gwrth Hiliaeth a ddyluniwyd ar y cyd gydag Ysgol Pencae gan y Gweithgor Gwrth-Hiliaeth
Anti-racism logo, designed with Ysgol Pencae by the Anti-Racism Committee




Ysgol Noddfa

Mae Ysgol Wern wedi dechrau ar ein siwrnai i ddod yn Ysgol Noddfa gyda'r nod o hyrwyddo diwylliant o groeso, cynhwysiant, goddefgarwch a chyfeillgarwch at bawb - yn enwedig i'r rheiny sy'n ceisio lloches neu sydd yn ffoaduriaid.

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd ymgorffori'r ethos hwn yn ein cwricwlwm, gan helpu i gefnogi addewid Caerdydd i fod yn Ddinas Noddfa.

Ein nod yw annog ein dysgwyr, staff a'r gymuned ehangach i ddeall beth a olygir wrth 'ysgol noddfa' gan estyn llaw cyfeillgarwch a pharhau i adeiladu amgylchedd lle mae pawb yn cael eu croesawu, eu gwerthfaworogi a'u cefnogi.

Beth yw Ysgol Noddfa?

- Lle sy'n meithrin diwylliant o groeso a diogelwch i bobl sy'n ceisio noddfa, gan gynnwys teuluoedd sydd yn ceisio lloches neu sydd yn ffoaduriaid.
- Addysgu cymuned yr ysgol gyfan am yr hawl i noddfa a nodi dulliau ymarferol i ddangos yr ymrwymiad hwnnw.
- Meithrin empathi ac ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol trwy hyrwyddo lleisiau a chyfraniadau pobl sy'n ceisio noddfa, annog dealltwriaeth o brofiadau pobl sydd wedi'u dadleoli a helpu i frwydro yn erbyn stereoteipiau.

Dechrau'r daith i ddod yn Ysgol Noddfa
Becoming a Sanctuary School



Ein Côt Eurgylch





Mae ein hysgol yn hyrwyddo hawl staff a myfyrwyr i gofreidio pob steil gwallt Affro. Rydym yn cydnabod bod gwallt gwead Affro yn rhan bwysig o hunaniaethau hiliol, ethnig, diwylliannol a chrefyddol ein staff Du a myfyrwyr, ac mae angen steilio penodol ar gyfer cynnal a chadw gwallt iach.

Rydym yn croesawu gwallt gwead Affro wedi'i wisgo ym mhob arddull gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, *affros, locs, twists, braids, cornrows, fades, gwallt wedi'i sythu trwy wres neu gemegau, plethu, wigiau, sgarffiau pen, a gorchuddion.*


Yn yr ysgol hon, rydym yn cydnabod ac yn dathlu hunaniaeth ein staff a'n myfyrwyr. Rydym yn gymuned sydd wedi'i hadeiladu ar ethos o gydraddoldeb a pharch lle nad yw gwead ac arddull gwallt yn effeithio ar allu unrhyw un i lwyddo.



Our Halo Code



Ein Côt Eurgylch
Our Halo Code



EIN CWRICWLWM EQUALITY THROUGH OUR CURRICULUM

Fel rhan o'n cwricwlwm, rydym yn darparu cyfleodd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth, parch a pherthyn:

- Llyfrau a thestunau sy'n adlewyrchu Cymru gyfoes a'r byd ehangach.
- Themâu sy'n archwilio diwylliannau, credoau a phrofiadau amrywiol.
- Cyfleoedd i ddysgu am wahanol grefyddau a thraddodiadau.
- Ymwelwyr a gweithdai sy'n dod â safbwyntiau gwahanol yn fyw.
- Codi ymwybyddiaeth drwy ddathlu dyddiau cenedlaethol a rhyngwladol
- Sicrhau bod pob dysgwr yn gweld ei hun a'i hunaniaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y cwricwlwm.

As part of our curriculum, we provide opportunities for learners to develop their understanding of diversity, respect and belonging through:

- Books and texts that reflect modern Wales and the wider world.
 - Topics that explore a range of cultures, beliefs and experiences.
 - Opportunities to learn about different religions and traditions.
 - Visitors and workshops that bring diverse perspectives to life.
 - Raising awareness through the celebration of national and international events.
 - Ensuring that all learners see themselves, their identities and their experiences reflected in the curriculum.
- 